# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 145(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

## 4 Datganiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip: Wythnos Ffoaduriaid - Cymru, Cenedl sy'n Noddfa

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Cenedl Noddfa – Cynllun ffoaduriaid a cheiswyr lloches

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: Lles Anifeiliad Anwes

(45 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol: Y Dechrau Gorau mewn Bywyd: Gwneud i'r Blynyddoedd Cynnar Gyfrif – TYNNWYD YN ÔL

(0 munud)

## 7 Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Meicrobelenni) (Cymru) 2018

(15 munud)

**NDM6742** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mai 2018.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 8 Dadl: Cyfnod 4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

(15 munud)

**NDM6746** Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

**Dogfen Ategol**

[Datganiad y Llywydd - Adran 111A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 - Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)]

## 9 Dadl: Dwy Flynedd ers Refferendwm yr UE

(60 munud)

**NDM6741** [Julie James (Gorllewin Abertawe)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi y bydd dwy flynedd wedi pasio ers y Refferendwm ar yr UE ar 23 Mehefin 2018.

2. Yn ailddatgan ei gefnogaeth i'r ymagwedd at y trefniadau pontio wrth ymadael â'r UE sydd yn y Papur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ym mis Ionawr 2017, ac yn credu mai dyma'r ffordd orau o hyd i sicrhau canlyniad boddhaol i'r negodiadau ar Brexit.

[Diogelu dyfodol Cymru]

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod Llywodraeth y DU yn cyflawni ar y penderfyniad a wnaed yn refferendwm yr UE i adael yr UE ac na ddylid tanseilio ei safbwynt mewn trafodaethau gyda'r UE.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** – [Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)]

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod mai ewyllys pendant y bobl yw bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn galw ar wleidyddion y Deyrnas Unedig sydd yn erbyn gadael yr UE i barchu dymuniadau pleidleiswyr Cymru a Phrydain a rhoi'r gorau i geisio tanseilio proses Brexit.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau'r fargen orau i Gymru a'r DU, y tu allan i'r UE, y farchnad sengl a'r undeb tollau.

**Gwelliant 3** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth Cymru i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU i gyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er ei bod wedi dweud yn glir yn 'Diogelu dyfodol Cymru' y byddai "unrhyw ymgais o’r fath yn cael ei gwrthwynebu’n gadarn" ganddi.

**Gwelliant 4** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod mwyafrif o Aelodau Seneddol Llafur wedi ymatal mewn pleidlais ar barhau i gymryd rhan yn y farchnad sengl drwy aelodaeth o’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, yn groes i 'Diogelu dyfodol Cymru' sy'n dweud, "Nid oes modd i ni gefnogi cytundeb i ymadael â’r UE a fyddai’n golygu nad yw’r DU yn parhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl".

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 20 Mehefin 2018